**Mick Antoniw AS/MS**
**Y Cwnsler Cyffredinol**
**Counsel General**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-06-1411
Ein cyf/Our ref CG/05004/24

Jack Sargeant AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau

30 Ebrill 2024

Annwyl Jack,

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 19 Mawrth ynglŷn â Deiseb P-06-1411 "Rwy'n gwrthwynebu "Bil Diwygio'r Senedd" Llywodraeth Cymru, a gyhoeddwyd ar 18 Medi 2023, yn dod yn gyfraith".

Mae achos clir a chryf dros ddiwygio'r Senedd wedi'i wneud droeon drwy gyfres o adroddiadau gan gomisiynau a phaneli arbenigol. Yn 2004, daeth Comisiwn Richard (Adroddiad y Comisiwn ar Bwerau a Threfniadau Etholiadol Cynulliad Cenedlaethol Cymru) i'r casgliad nad oedd cadw'r *status quo* yn opsiwn ac argymhellwyd cynyddu nifer yr Aelodau newydd a newid y system etholiadol.

Yn 2017, gwnaeth y Panel Arbenigol ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad (Adroddiad McAllister) argymhellion ynghylch maint y Senedd a sut y dylai Aelodau gael eu hethol. Cafodd yr argymhellion eu hystyried yn ddiweddarach gan y Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Senedd, a gyflwynodd adroddiad ym mis Medi 2020, gan ddod i'r casgliad bod tystiolaeth glir a chadarn bod y Senedd yn rhy fach. Amlinellodd y Pwyllgor fod y rhan fwyaf o'r dystiolaeth a gyflwynwyd yn "mynegi pryder ynghylch a oes gan Senedd â 60 Aelod ddigon o gapasiti i gyflawni ei chyfrifoldebau'n effeithiol".

Yn ystod etholiadau'r Senedd yn 2021, roedd ymrwymiad i ddiwygio'r Senedd yn rhan amlwg o faniffestos Llafur Cymru, Plaid Cymru a Democratiaid Rhyddfrydol Cymru. Pleidleisiodd y Senedd o blaid bwrw ymlaen ag argymhellion adroddiad y Pwyllgor Diben Arbennig ar Ddiwygio'r Senedd a gyhoeddwyd ar 30 Mai 2022 sef *Diwygio ein Senedd: Llais cryfach i bobl Cymru*. Ymhlith ei 31 o argymhellion, roedd yr adroddiad yn cynnwys argymhelliad y dylai fod gan y Senedd 96 o Aelodau.

Roedd y Pwyllgor Diben Arbennig yn cydnabod bod y cynnig ar gyfer 96 o aelodau yn mynd y tu hwnt i'r ystod a argymhellwyd yn wreiddiol gan y Panel Arbenigol. Yn ei adroddiad, gwnaeth y Pwyllgor amlinellu ei resymeg dros gredu bod hynny yn addasiad cymesur, gan adlewyrchu'r amrywiaeth eang o newidiadau yn nhirwedd wleidyddol Cymru ers adroddiad y Panel Arbenigol. Roedd y rhain yn cynnwys:

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Mick.Antoniw@llyw.cymru
Correspondence.Mick.Antoniw@gov.Wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

- mwy o gyfrifoldebau i Lywodraeth Cymru a'r Senedd, sy'n deillio'n bennaf o ymadawiad y DU â'r UE;
- cynnydd yn ymwybyddiaeth y cyhoedd o rôl y Senedd o ran dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif, yn bennaf o ganlyniad i'r pandemig COVID-19;
- newidiadau mewn ffyrdd o weithio, a ysgogwyd gan y pandemig COVID-19, a allai o bosibl leihau rhai o'r costau ariannol sy'n gysylltiedig â chynyddu nifer Aelodau o'r Senedd; a
- chadarnhad y bydd nifer yr Aelodau Seneddol o Gymru yn gostwng o 40 i 32.

Y Senedd yw'r lleiaf o'r holl ddeddfwrfeydd datganoledig yn y DU ac mae hi'n parhau i fod yr un maint â phan gafodd y Cynulliad Cenedlaethol ei sefydlu ym 1999. Bryd hynny, nid oedd gan y Cynulliad Cenedlaethol unrhyw bwerau deddfu sylfaenol ac nid oedd wedi'i wahanu'n ffurfiol oddi wrth Lywodraeth Cymru. Mae rolau a chyfrifoldebau'r Senedd wedi cynyddu'n sylweddol. Mae'r Senedd bellach yn gwneud cyfreithiau, yn gosod trethi ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif yn rhai o'r meysydd sy'n cael yr effaith fwyaf ar fywydau pobl. Mae'n gwneud penderfyniadau sy'n effeithio ar fywyd pob unigolyn yng Nghymru. Mae'n hanfodol bod y Senedd o faint priodol er mwyn ei galluogi i gyflawni ei swyddogaethau craffu a dwyn y Llywodraeth i gyfrif yn effeithiol.

Mewn unrhyw senedd, pan fo Aelod yn eistedd ar fwy nag un Pwyllgor, mae'n rhaid iddo rannu ei amser i baratoi ar gyfer cynnal gwaith craffu. Mae unrhyw gyfrifoldebau ychwanegol sydd gan yr Aelod (fel bod yn Arweinydd Plaid, yn Rheolwr Busnes, ac ati) yn effeithio ymhellach ar ei gapasiti personol. Mae'r galw a'r cyfrifoldebau hyn sy'n gwrthdaro yn effeithio ar allu'r Aelod i arbenigo mewn maes craffu ar bolisi a deddfwriaeth, ac i feithrin rhagor o arbenigedd a dealltwriaeth wrth ddwyn y weithrediaeth i gyfrif. Er mai prin yw'r achosion pan fo Aelodau mewn seneddau eraill yn eistedd ar fwy nag un Pwyllgor, mae hyn, ar hyn o bryd, yn arfer gyffredin yn y Senedd.

Mae cost ynghlwm wrth fuddsoddi yn ein democratiaeth. Mae Llywodraeth Cymru wedi gweithio gyda phartneriaid (gan gynnwys Comisiwn y Senedd, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, y Comisiwn Etholiadol a Chomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru) i lunio amcangyfrifon manwl o gostau sy'n amlinellu goblygiadau ariannol disgwyliedig y ddeddfwriaeth hon dros gyfnod o 8 mlynedd, a hynny o'r dyddiad y rhagwelir y bydd y Bil hwn yn cael ei basio.

Mae'r hinsawdd ariannol sydd ohoni yn ei gwneud yn ofynnol inni sicrhau'r gwerth gorau posibl o arian cyhoeddus. Mae gan Gymru gyllideb flynyddol o dros £24 biliwn (Cronfa Gyfunol Cymru). Bydd gwelliant mewn gwerth sy'n llai na 0.1% o'r gyllideb hon, yn sgil y ffaith bod gan bwyllgorau'r Senedd y gallu i gyflawni eu cyfrifoldebau yn fwy effeithiol, yn gwrthbwyso costau'r buddsoddiad hwn.

Yn gywir,

**Mick Antoniw AS/MS**
Y Cwnsler Cyffredinol
Counsel General